

❖ 'FE WNEST GAMGYMERIAD'

*Mair***Darllen: Luc 1:26–34****Myfyrdod**

'Fe wnest gamgymeriad,' meddwn wrtho.

'Nid fi, dim byth!

Rhywun arall efallai,

yn deilyngach,

yn bwysicach,

ond nid fi!'

Yn wir, beth oedd gennyf fi i'm cymeradwyo?

Dim cysylltiadau na doniau arbennig,

dim – dim ond merch gyffredin o Nasareth,

felly beth allai Duw weld ynof fi?

Beth bynnag, doeddwn i ddim yn briod eto,

a doedd dim gobaith fy mherswadio

i gysgu gyda Joseff cyn i ni briodi.

Felly dyma ddweud yn blwmp ac yn blaen,

'Mae'n ddrwg gennyf, ond fe wnest gamgymeriad!'

Ond nid atebodd.

Dim ond sefyll yno yn gwenu,

heb gynnwrf,

a chyn i mi gael cyfle dyma fe'n dechrau eto –

a'r neges y tro hwn yn fwy syfrdanol na chynt:

plentyn wedi ei eni o'r Ysbryd Glân,

Mab Duw!

Roedd hyn braidd yn ormod,

a dylwn fod wedi dweud hynny yn y fan a'r lle,

ond roeddwn wedi fy syfrdanu gormod i ymateb.

Hyd yn oed wedi i mi gael hyd i'm tafod

nid oedd fawr o ddefnydd i mi –

roedd fy meddwl mor llawn o gwestiynau

ni allwn ond dweud

'Wele fi, wasanaethferch yr Arglwydd,

bydded i mi yn ôl dy air.'

O! oedd, roedd yn swnio'n dda,

yn enghraifft wych o wyleidd-dra –

ond pe byddech ond yn gwybod beth oedd ar fy meddwl,

byddai'r darlun sydd gennych ohonof yn wahanol wedyn.

Felly, beth a ddigwyddodd i mi?

Sut allwn fod mor dyner ac ufudd?

Wel, pa ddewis oedd gennyf?

Oherwydd, fel y dywedodd yr angel,

'Y mae popeth yn bosibl gyda Duw.'

Sut gallwn i ddadlau gyda hynny?

Doedd dim dianc i fod.

Ond un peth yw derbyn yr egwyddor,

peth arall yw pan fydd yr egwyddor

yn troi eich bywyd wyneb i waered.

A ydw i'n credu?

Doeddwn i ddim ar y pryd,

ond rwy'n credu'n awr,
oherwydd rwyf newydd ddeall fy mod yn feichiog,
a rwy'n dweud hyn gyda'r parch mwyaf,
Duw a wŷr sut!
Y mae'n rhyfeddol ac yn ddychrynlyd,
yn gyffrous ac yn ddirgelwch;
mae fy meddwl ar chwâl, heb wybod beth i feddwl mwyach.
Ond mae un peth yn glir,
y tu hwnt i bob cwestiwn –
gyda Duw, mae'n amlwg,
does *dim* yn amhosibl!

Gweddï

O! Dduw grasol,
yr wyt ti yn ein herio bob dydd,
yn ein galw i feysydd na allem ddychmygu'n bosibl.
Pwy bynnag ydym, y mae rhan i ni yn dy gynlluniau di.
Gwared ni rhag i ni amau dy allu.
Rho i ni'r gostyngeiddrwydd angenrheidiol i glywed dy lais,
a rho i ni ffydd i ymateb.
Boed i ni ymateb fel yr ymatebodd Mair:
'Wele fi, Arglwydd;
bydded i mi yn ôl dy air.'
Gofynnwn hyn, yn enw Iesu Grist ein Harglwydd.

Nick Fawcett, cyf. Olaf Davies